Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penllwyn
# Capel Bangor
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3LP

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Penllwyn ym mhentref gwledig Capel Bangor, ger Aberystwyth.  Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg ydyw.  Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas.

Mae 32 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.  Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn y tymor ar ôl iddynt gyrraedd 4 oed. Daw 50% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle siaredir y Gymraeg yn y cartref.  Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae 22% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n unol â chanrannau sirol a chenedlaethol.  Mae 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysg ychwanegol yr ysgol.  Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Ers diwedd Ebrill 2011, mae'r ysgol yn rhannu pennaeth ag Ysgol Penrhyn Coch.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penllwyn yn 2012-2013 yw £4,930.  Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £12,284 a'r lleiafswm yw £2,820.  Mae Ysgol Gynradd Penllwyn yn safle 13eg allan o'r 58 ysgol gynradd yn sir Ceredigion o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol, yn gyffredinol, yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion.
- y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- lefel presenoldeb yn uchel ac yn gyson dda;
- yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus iawn;
- ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda; ac
- mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau amrywiol a chyfoethog i'r disgyblion yn y ddau gyfnod.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol;
- y pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn cael dylanwad cryf iawn ar lwyddiant yr ysgol;
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol ac mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n effeithiol;
- y broses hunanarfarnu yn drylwyr, ac wedi ei seilio'n gadarn ar dystiolaeth sy'n adnabod meysydd priodol ar gyfer gwelliant; a bod
- y bartneriaeth a'r cydweithio llwyddiannus rhwng yr awdurdod a'r ysgol yn gryfder.

## Argymhellion

A1 Parhau i godi safonau darllen yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau gwelliant yn y niferoedd sy'n cyflawni ar y deilliannau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a'r lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

A3 Mireinio cynllun gwella'r ysgol i fod yn fwy meintiol ac yn haws i fesur cynnydd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mewn gwersi, mae disgyblion Ysgol Penllwyn yn ymroi i'r tasgau ac yn gwneud cynnydd cyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac yn defnyddio eu medrau meddwl yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'u cynnydd eu hunain ac yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gyfrannu mewn gwersi. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa addas ac yn ynganu'n glir wrth drafod eu syniadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn ymateb yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio geirfa sy'n berthnasol i'r gwaith dan sylw. Mae ychydig o ddisgyblion o allu uwch yn ymateb i gwestiynau ac yn rhesymu mewn modd mwy estynedig.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn mynegi hoffter am ddarllen gan drafod cynnwys yn ystyrlon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol gan ddefnyddio medrau darllen yn llwyddiannus i dynnu gwybodaeth berthnasol o destun a hynny ar draws ystod o bynciau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn hyderus a hynny yn y ddwy iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddangos gafael cadarn ar frawddegau ac atalnodi sylfaenol sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig. Mae gwaith ysgrifenedig rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ffurfiau ysgrifennu gwahanol. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ar draws ystod o bynciau. Mae'r ysgrifennu'n ddychmygus ac fe ddefnyddir geirfa eang i greu effeithiau. Yn gyffredinol, mae safon gwaith ysgrifennu disgyblion ar frig yr ysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda.

Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn erbyn eu targedau.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n (TGCh) llwyddiannus ar draws ystod o bynciau.

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd cyfnod, rhaid trin data am berfformiad yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru ar wahân i fedrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y maes dysgu hwn, ac mae yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel disgwyliedig ymhob pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi amrywio. Er hynny mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4+) mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau o ysgolion y teulu, a Chymru am y tair blynedd diwethaf.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio ac yn gyffredinol wedi bod yn is na'r teulu o ysgolion a Chymru.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Dros gyfnod o amser, mae bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni'n well na'r merched ar y lefelau uwch (lefel 5+) mewn mathemateg.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sydd yn rhoi lle amlwg i les a diogelwch y disgyblion. Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn yn y dosbarthiadau ac ar fuarth yr ysgol. Un o gryfderau'r ysgol yw'r parch a'r gofal mae'r plant yn dangos at ei gilydd, yn enwedig y plant hŷn tuag at y plant iau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos llawer o ddiddordeb a chymhelliant yn eu gwaith. Mae'r cyfraddau presenoldeb yn dda iawn ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corff. Darperir siop ffrwythau yn yr ysgol sy'n datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion ymhellach o fwyta'n iach.

Trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, mae'r disgyblion yn cael llais amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae eu syniadau wedi arwain at sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu mewn modd mwy gwyrdd e.e. ailgylchu papur a chardfwrdd. Mae dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu ac i ofalu am yr amgylchedd yn gadarn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio bwriadus yn sicrhau bod

athrawon yn ennyn diddordeb ystod lawn o ddisgyblion a'u datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r ysgol yn cyfarfod yn briodol a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd a TGCh yn cael sylw dyledus yn y cynllunio ac yn y gwersi. Cyfoethogir profiadau'r disgyblion drwy ymweliadau addysgol, er enghraifft i'r Amgueddfa Genedlaethol a gorsaf Rheidol a Phentywyn.

Mae'r athrawon yn adnabod ac yn targedu grwpiau penodol o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn effeithiol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn rhan naturiol o waith a bywyd yr ysgol. Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant a hanes lleol yn y cynlluniau gwaith. Mae hyn yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal leol. Trwy weithgareddau masnach deg, a'r cyswllt sydd gan Ysgol Penllwyn ag ysgol yng ngwlad Pwyl, mae dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach yn datblygu'n dda.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda sy'n sicrhau bod disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o fframwaith y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus gan sicrhau bod y deilliannau dysgu yn glir.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflymder da i'r wers ac mae cwestiynu treiddgar yn hybu dysgu llwyddiannus. Mae gweithgareddau'n heriol ac yn ddiddorol ac yn datblygu gallu'r disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae meini prawf llwyddiant yn rhan naturiol o'r gwersi, ac ym mrig yr ysgol, mae'r disgyblion yn cymryd rôl weithredol wrth eu llunio. Cyfeirir atynt yn rheolaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o'r dasg. Mae hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol yn eu lle i asesu cynnydd disgyblion. Defnyddir canlyniadau asesu a phrofion safonol yn llwyddiannus. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio yn ofalus gyda sylwadau adeiladol a chynhaliol sydd hefyd yn cyfeirio at y ffordd ymlaen. Yn yr arfer orau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Gyda chymorth yr athrawon, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn gosod eu targedau eu hunain. Mae llawer o'r disgyblion yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi barnau clir am gynnydd eu plant ac maent yn ateb y gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a

chymdeithasol y disgyblion yn dda. Mae ymwelwyr cyson i'r ysgol yn cyfrannu at y ddarpariaeth hon. Mae gwasanaethau'r ysgol yn creu ethos ysbrydol ac yn rhoi cyfleodd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio'n dawel.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer adnabod ac ymateb i anghenion addysgol y disgyblion. Mae system tracio'r ysgol a'r defnydd effeithiol a wneir o ddata yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb yn briodol i'w gofynion. Mae gan y disgyblion raglenni addysgol unigol addas sy'n cael eu rhannu â'r rhieni ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhaglenni ymyrraeth yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad y disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau amrywiol yn ôl y gofyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn rhoi nifer o gyfleoedd da i ddisgyblion yr ysgol gyfrannu i fywyd y gymuned. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wneir i ddatblygu'r ardd yng ngorsaf Capel Bangor fel rhan o waith adfer gorsafoedd trenau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos arbennig yn perthyn i Ysgol Penllwyn. Mae'n ysgol ofalgar a chartrefol lle caiff bob unigolyn ei barchu a'i gefnogi'n llwyddiannus. Ceir amgylchedd ac awyrgylch cynhwysol sy'n meithrin unigolion cyfrifol sy'n helpu ei gilydd. Mae hyn yn datblygu'r disgyblion i fod yn unigolion cyflawn, cyfrifol, aeddfed a gonest. Sicrha'r ysgol ei bod yn cynnig yr un cyfleoedd a phrofiadau i'r holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol ar safle eang braf ac mae cyflwr yr adeilad yn briodol. Ceir cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da i ysgogi dysgu'r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o'r safle ar gyfer chwarae a dysgu. Mae nifer o arddangosfeydd lliwgar a symbylus o fewn yr ystafelloedd a'r coridorau sy'n dathlu gwaith a llwyddiannau'r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei rhannu'n llwyddiannus iawn gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yr ysgol. Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad cadarn i'r ysgol ac mae cyfraniad effeithiol y pennaeth cynorthwyol yn ddylanwad cryf iawn ar lwyddiant yr ysgol. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac o staff yr ysgol. Mae ymdrechion pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae cyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n glir ac mae ganddynt ddealltwriaeth gytûn o gryfderau a'r meysydd i'w datblygu er mwyn gwella safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r arweinwyr yn gwneud dadansoddiadau manwl o ystod eang o ddata perfformiad ysgol a'u defnyddio'n effeithiol er mwyn gweld yn union lle mae angen codi safonau. Mae cynlluniau i wella medrau darllen ac ysgrifennu ar waith ac yn sicrhau bod gwelliant yn safonau'r disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda mewn ystod eang o ddyletswyddau. Maent yn ymwybodol o flaenoriaethau ysgol ac agweddau ar berfformiad grwpiau o ddisgyblion. Maent hefyd yn ymwybodol o sut mae'r ysgol yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg. Maent yn goruchwylio rheolaeth ariannol, adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol sy'n sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni. Maent yn datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn ac mae asesu ar gyfer dysgu yn rhan naturiol o weithgareddau'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o weithdrefnau i arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth dda i farn y rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion.

Mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr, yn ddilys ac wedi ei seilio'n gadarn ar dystiolaeth o fonitro'r dysgu a'r addysgu ac o ddadansoddiad manwl o ystod briodol o ddata. Mae'r adroddiad yn un gonest a theg, er yn ddisgrifiadol mewn mannau. O ganlyniad, mae'r broses yn adnabod cryfderau'r ysgol ac yn blaenoriaethu'r agweddau sydd angen eu gwella yn effeithiol.

Mae cyswllt agos rhwng hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun gwella'ysgol. Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi nifer o flaenoriaethu priodol i'w datblygu. Mae'r cynllun wedi'i gostio ac yn cynnwys amserlenni realistig ond nid yw'r meini prawf llwyddiant bob amser yn ddigon meintiol i fesur eu heffeithiolrwydd.

Mae staff yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau drwy ysgwyddo cyfrifoldebau arwain a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol wedi elwa o gydweithio a rhannu arferion dysgu yn effeithiol gydag Ysgol Penrhyn Coch.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol. Mae partneriaeth gref yn bodoli gyda rhieni ac mae disgyblion yn elwa o gyfraniad gwirfoddolwyr sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i wrando arnynt yn darllen. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian sylweddol i brynu adnoddau i'r ysgol sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth a chyrhaeddiad y disgyblion. Mae cylchlythyr wythnosol, gwefan yr ysgol, a'r defnydd o dechnoleg yn adnodd gwerthfawr ac yn fodd effeithiol i rannu gwybodaeth.

Cynhaliwyd wythnos fusnes yn yr ysgol yn ddiweddar, ac mae'r cysylltiadau agos gyda busnesau lleol wedi datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith. Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli gyda chymdeithas Rheilffordd Cwm Rheidiol lle mae disgyblion yr ysgol yn ymwelwyr cyson ac yn gofalu am yr ardd. Mae hyn wedi datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'r hyn sydd ei angen ar gyfer tyfu blodau a llysiau'n llwyddiannus. Datblygir yr agwedd hon ymhellach ar dir yr ysgol lle mae 'gardd wyddonol' wedi ei sefydlu.

Mae partneriaeth effeithiol a llwyddiannus yn bodoli gyda swyddogion yr awdurdod sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r bartneriaeth hon yn gryfder yn yr ysgol.

Mae trefniadau effeithiol wedi eu sefydlu gyda'r meithrin lleol er mwyn hwyluso trosglwyddiad eu plentyn i'r ysgol. Mae'r bartneriaeth gydag Ysgol Penrhyn Coch yn datblygu'n dda.

Ceir cydweithio llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd sy'n sicrhau pontio effeithiol i'r disgyblion ac yn eu paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli rhwng ysgolion yr ardal, a'r ysgolion uwchradd, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac fe wneir defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i roi cefnogaeth dda i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau dysgu sydd o ansawdd da, ac mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer athrawon a chymorthyddion sy'n bodloni anghenion proffesiynol staff yr ysgol a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Mae gan yr ysgol reolaeth effeithiol ar gyllid. Mae'r gwariant yn cyfateb i flaenoriaethau sydd yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae monitro gofalus gan y pennaeth yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu o fewn y gyllideb.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin data am berfformiad yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o’r garfan ymhob blwyddyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn cymharu’n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru ar wahân i fedrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y maes dysgu hwn, ac mae yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi amrywio. Er hynny, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu am y 3 blynedd diwethaf. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella ac yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 25% i’r 50%-25% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio ac yn gyffredinol wedi bod yn is na’r teulu o ysgolion a Chymru dros gyfnod o amser, er bod gwelliant dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau’r bechgyn a’r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Dros gyfnod o amser, mae bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni’n well na’r merched ar y lefelau uwch (lefel 5+) mewn mathemateg.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 16 o ymatebion gan ddisgyblion. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer bron pob agwedd.

Mae bron pob un o ddisgyblion yn teimlo bod digon o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn yr ysgol yn rheolaidd a bod y gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf yn nodi bod eraill yn ymddwyn yn dda, eu bod yn gallu gwneud eu gwaith a bod y plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 17 o ymatebion i'r holiadur. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd. Mae rhieni i gyd yn cytuno eu bod yn fodlon gyda'r ysgol, a'i bod yn cael ei rhedeg yn dda. Mae bron pob un yn teimlo bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn. Mae pob rhiant yn cytuno'n gryf bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffiths | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Melfyn Hopkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Emyr Pugh-Evans | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.